

Tisagenlecleucel ar gyfer trin lymffoma cell B mawr ymledol atglafychol neu anhydrin ar ôl 2 sesiwn therapi systematig neu fwy

13 Mawrth 2019

Mae therapi tisagenlecleucel (Kymriah) ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Cancer. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer trin lymffoma cell B mawr ymledol atglafychol neu anhydrin ymhlith oedolion ar ôl 2 sesiwn therapi systematig neu fwy.

Caiff rhagor o dystiolaeth ar tisagenlecleucel ei chasglu, hyd at fis Mehefin 2023. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymhell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddarau'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Cancer tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael therapi tisagenlecleucel, ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Lymphoma Action](#), 0808 808 5555
- [Bloodwise](#), 0808 2080 888
- [GOFAL Lewcemia](#), 08088 010 444
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3314-3